

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol Dirybudd

**Dyddiad yr arolygiadau
18 a 19 Chwefror 2013**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

Pennod	Rhif Tudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Crynodeb Gweithredol.....	3
3. Canfyddiadau.....	5
Ward Llewellyn (Strôc a Meddygol Meddyg Teulu), Ysbyty Bronllys	5
Ward Twymyn (Adferiad), Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi	13
4. Argymhellion.....	20
5. Camau nesaf	23
Atodiad A – Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.....	24
Atodiad B – Cefndir a Methodoleg ar gyfer Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol.....	26
Atodiad C - Themâu Urddas a Gofal Hanfodol, Hawliau Dynol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru.....	28

1. Cyflwyniad

1.1 Ar 18 a 19 Chwefror 2013, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol Dirybudd mewn dau ysbyty – Ysbyty Bronllys ac Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi, y ddau yn rhan o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Urddas a Gofal Hanfodol

1.2 Mae erthygl tri o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi na ddylai neb gael ei drin mewn modd annynol neu ddiraddiol¹. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau yn y DU – gan gynnwys holl wasanaethau'r GIG – i drin pobl â thegwch, cydraddoldeb, urddas a pharch.

1.3 Mae urddas hefyd yn un o bum Egwyddor y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ac mae'n egwyddor allweddol sy'n sail i Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Yn 2007, lansiodd Llywodraeth Cymru ei 'Rhaglen Urddas mewn Gofal ar gyfer Cymru', menter sydd â'r nod o sicrhau nad oes dim goddefgarwch o gamdriniaeth nac amarch at bobl hŷn yn y system gofal iechyd a chymdeithasol.

1.4 O ystyried y cefndir hwn o ddeddfwriaeth hawliau dynol rhyngwladol ac yn y DU a pholisi Llywodraeth Cymru, ym mis Rhagfyr 2011 dechreuodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar raglen o 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' dirybudd i adolygu gofal pobl mewn ysbytai ledled Cymru gan roi sylw penodol i bobl hŷn. Mae'r rhaglen

¹ Ystyr 'triniaeth annynol' yw triniaeth sy'n achosi niwed meddyliol neu gorfforol ddifrifol, ac ystyr 'triniaeth ddiraddiol' yw triniaeth sy'n gwbl waradwyddus a diurddas.

hon yn dilyn Archwiliadau Urddas a Pharch ar Hap a gynhaliwyd gan AGIC yn ystod 2009 a 2010².

Methodoleg yr Arolygiad

1.5 Mae'r 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' yn adolygu'r modd y cynhelir urddas claf ar ward/uned ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r claf yn ei dderbyn. Cesglir gwybodaeth trwy siarad â chleifion, perthnasau a staff, adolygu cofnodion cleifion a thrwy arsylwi.

1.6 Mae'r arolygiadau'n creu darlun cyffredinol o'r gofal y mae cleifion yn ei dderbyn ar wardiau/unedau ysbytai, a allai awgrymu bod problemau ehangach o ran ansawdd a diogelwch gofal hanfodol ac urddas. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r modd y cynhelir arolygiadau ar gael yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Ysbyty Bronllys ag Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi

1.7 Mae Ysbyty Bronllys ac Ysbyty Bro Ddyfi yn ddau o ddeg ysbyty cymunedol ym Mhowys.

1.8 Fel rhan o'n harolygiad, y wardiau yr ymwelwyd â nhw oedd Ward Llewellyn (Strôc a Meddygol Meddyg Teulu), Ysbyty Bronllys a Ward Twymyn (Adferiad), Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi.

² I gael mwy o wybodaeth ynglŷn ag Archwiliadau Urddas a Pharch ar Hap 2009-2010, ewch i <http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgid=477&pid=47582>

2. Crynodeb Gweithredol

2.1 O ganlyniad i Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol a gynhaliwyd yn Ysbyty Bronllys ac Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi, mae AGIC wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â nhw. Nodwyd problemau tebyg ar y ddwy ward yn gyffredinol, ond roedd y materion a nodwyd ar ward Llewellyn, ysbyty cymunedol Bro Ddyfi yn fwy sylweddol ac roedd y bwrdd iechyd wedi cael ei hysbysu'n flaenorol am nifer o'r materion yn ymwneud â glanweithdra yn sgil archwiliad glanweithdra ar hap a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011.

2.2 Roedd un o'r prif faterion a amlygwyd yn ystod ein harolygiadau yn ymwneud â llenwi dogfennau sy'n rhan hanfodol o'r broses gofal, gan i ni nodi'r canlynol:

- Roedd asesiadau cleifion ar gael, ond roedd y manylion a oedd wedi eu cynnwys yn amrywio ac nid oedd asesiadau priodol wedi eu llenwi ar gyfer eu risgiau penodol bob amser;
- Roedd mwyafrif y cynlluniau gofal a oedd wedi eu sefydlu yn gyffredinol ac nid oeddynt felly'n nodi datblygiad y claf penodol bob amser na lefel y cymorth a oedd yn ofynnol;
- Roedd y staff wedi llenwi'r dogfennau ar ôl darparu gofal ar rai achlysuron. Mae hyn yn gallu arwain at gofnodion anghyflawn neu anghywir ac felly mae'n bosibl nad yw'r staff nyrsio/meddygol yn gwbl ymwybodol pa ofal a thriniaeth sydd wedi eu darparu.
- Codwyd pryderon ar y ddwy ward ynglŷn â ffurflenni 'Na Cheisier Dadebru'. Roedd ffurflen ar gael yr oedd y ddwy ward yn ei defnyddio, ond nid oedd unrhyw

dystiolaeth bod trafodaeth wedi ei chynnal gyda'r claf dan sylw, er gwaethaf y ffaith nad oedd dystiolaeth i nodi nad oedd gan y claf perthnasol y gallu i wneud hynny.

2.3 Codwyd pryderon hefyd am y risgiau yn sgil y ffaith y gallai cleifion a phobl heb awdurdod fynd at feddyginiaeth, gan i nodi bod y drysau i'r ystafell feddyginiaeth ar y ddwy ward ar agor, a'r tu mewn i'r ystafelloedd, roedd yr oergelloedd cyffuriau heb eu cloi. Codwyd mwy o bryderon pan arsylwyd y staff yn cynnal y rownd feddyginiaeth gan i ni weld y staff yn gadael y troliau meddyginiaeth ar agor yn y prif goridorau ar sawl achlysur.

Ar ôl ein harolygiadau, gofynnwyd am sicrwydd ysgrifenedig gan y Bwrdd Iechyd bod camau wedi eu cymryd i ymdrin â'r risgiau a nodwyd ar y ddwy ward, a chafwyd y sicrwydd hwnnw.

2.4 Roedd y materion eraill a nodwyd yn cynnwys:

- Glanweithdra'r wardiau yr ymwelwyd â nhw gan y sylwyd ar lwch ac annibendod mewn rhai manau;
- Preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddefnyddio'r tŷ bach/cyfleusterau ymolchi, gan y gwelwyd nad oedd hynny'n foddhaol ar sawl achlysur;
- Cyfathrebu rhwng y staff ar Ward Twymyn, gan y gwelwyd y staff yn cyfathrebu gwybodaeth sensitif, ar rai achlysuron, mewn modd nad oedd yn parchu cyfrinachedd, ac yn siarad â chleifion mewn modd annerbyniol.

2.5 Er gwaethaf y materion a amlygwyd yn ystod ein hamser ar y wardiau, gwelsom nifer o enghreifftiau pan yr oedd y staff yn ymadweithio gyda chleifion mewn modd gofalgarn a sensitif. Hefyd, roedd y cleifion y siaradwyd â nhw yn canmol agwedd y staff a'u hymddygiad tuag atynt.

2.6 Dymuna AGIC ddiolch i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, yn enwedig aelodau'r staff ar y wardiau yr ymwelwyd â nhw, a oedd yn hynod o barod i gynorthwyo trwy gydol yr arolygiad.

3. Canfyddiadau

3.1 Rydym wedi strwythuro'n canfyddiadau o'r arolygiad ar y meysydd o Urddas a Gofal Hanfodol allweddol ar bob ward yr ymwelwyd â hi. Mae'r argymhellion sy'n codi o'r canfyddiadau hyn wedi eu nodi yn adran 4 o'r adroddiad hwn.

Ward Llewellyn (Strôc a Meddygol Meddyg Teulu), Ysbyty Bronllys

Amgylchedd y Ward

3.2 Roedd y ward yn lân yn gyffredinol ac roedd ystafelloedd y cleifion yn olau a digon o le ynddynt. Ni chododd y cleifion y siaradwyd â nhw unrhyw faterion ynglŷn â glanweithdra'r ward.

3.3 Er hyn, nodwyd bod llwch yn amlwg ar siliau'r ffenestri a'r rheiliau 'dado'. Roedd y materion glanweithdra eraill yn cynnwys drych budr yn un o dai bach y cleifion, rhannau o'r ward a oedd yn llawn annibendod er bod digon o le i gadw offer ar gael ac roedd padell wely wedi ei defnyddio ar y bwrdd ar ochr gwely un o'r cleifion wrth ymyl y jwg dŵr.

3.4 Roedd y rhan fwyaf o'r tai bach ar y ward wedi eu neilltuo ar gyfer dynion neu fenywod. Er hyn, nodwyd un tŷ bach nad oedd wedi ei neilltuo'n eglur ac roedd y clo ar ddrws y tŷ bach hwn wedi torri. Codwyd mwy o bryderon ynglŷn â'r ystafell ymolchi ar gyfer cleifion, gan i ni weld aelod o staff yn gadael menyw nad oedd wedi gorffen

gwisgo yn yr ystafell ymolchi gyda'r drws yn gilagored. Roedd hyn yn golygu bod y claf i'w gweld yn amlwg gan unrhyw un a oedd yn cerdded heibio yn y prif goridor.

3.5 Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion ar y ward mewn ystafelloedd unigol. Pan yr oedd cleifion yn derbyn gofal neu driniaeth personol, roedd arwyddion yn cael eu gosod ar y drws i roi gwybod i bobl eraill.

3.6 Roedd ystafell ddydd ar gael ar gyfer cleifion ar y ward.

Agwedd ac Ymddygiad y Staff a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas

3.7 Gwelsom y staff yn gofalu am gleifion mewn modd tawel ac effeithiol ac yn siarad â'r cleifion mewn modd parchus. Hefyd, roedd y cleifion yn canmol agwedd y staff a'u hymddygiad tuag atynt.

3.8 Roedd y staff yn ymwybodol bod angen parchu cyfrinachedd wrth gyfathrebu gwybodaeth sensitif a gwelsom rownd ward a gynhaliwyd mewn modd sensitif a diffwdan.

3.9 Ni chodwyd unrhyw bryderon am y lefelau staffio ar y ward. Er hyn, nodwyd nad oedd yr holl staff ar y ward yn gwisgo bathodyn adnabod fel modd o nodi pwy ydynt.

Rheoli Cleifion sy'n Ddryslyd neu sydd â Dementia

3.10 Nid oedd menter gydnabyddedig ar waith ar y ward ar adeg ein hymweliad; ond roedd y staff wedi addasu eu ffurflen eu hunain a oedd yn debyg i'r fenter 'Dyma Fi'. Roedd y ffurflen hon yn cael ei llenwi ar gyfer y cleifion i gyd, a dywedodd y staff ei bod yn hynod o ddefnyddiol wrth eu cynorthwyo i ddod i adnabod y cleifion.

3.11 Ni nodwyd unrhyw faterion o ran gofal y cleifion sy'n ddryslyd neu sydd â dementia. Er hyn, nodwyd nad oedd yr holl staff y siaradwyd â nhw wedi derbyn hyfforddiant ym maes dementia.

3.12 Dywedodd y staff bod archwiliad wedi ei gynnal ledled y Bwrdd Iechyd ynglŷn â defnyddio cynlluniau lliw ar wardiau i gynorthwyo cleifion sy'n ddryslyd neu sydd â dementia. Er hyn, gwelsom nad oedd arwyddion mawr darluniadol ar ddrysau cyfleusterau'r cleifion i gynorthwyo'r holl gleifion, yn enwedig y rhai hynny sy'n ddryslyd neu â dementia i ddod o hyd iddynt.

Cynllunio a Darparu Gofal

3.13 Roedd asesiadau cleifion ar gael ac roedd y staff wedi eu diweddarau. Er hyn, nid oedd rhai o'r asesiadau yn gyflawn ac nid oedd yn amlwg bob amser sut yr oedd yr asesiadau'n cyfrannu at gynlluniau gofal y cleifion. Amlygwyd hefyd nad oedd asesiadau priodol yn cael eu cynnal ynglŷn â risgiau penodol i gleifion. Er enghraifft, roedd nodiadau un claf yn nodi bod risg o ddisgyn, ond nid oedd asesiad ar gyfer hynny wedi ei gynnal.

3.14 Roedd dwy system cynllunio gofal ar waith a oedd yn golygu bod y wybodaeth yn anghyson. Hefyd, nodwyd bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau gofal yn gyffredinol ac nad oeddynt felly yn cynnwys manylion ynglŷn â datblygiad y claf penodol a lefel y cymorth gofynnol.

3.15 Adolygwyd cynllun gofal claf a oedd ar ddiwedd ei oes ac roedd wedi ei osod ar y llwybr gofal dyddiau olaf oes priodol. Gwelwyd y staff yn gofalu am y claf ag urddas.

Rheoli Cofnodion

3.16 Roedd y cofnodion yn rhwydd eu dilyn, yn gyffredinol. Er hynny, nodwyd ar rai achlysuron bod y staff yn llenwi cofnodion y cleifion ar ôl darparu gofal a gwelsom nad

oedd cofnodion rhai cleifion yn cael eu llenwi ar unwaith ar ôl prydau bwyd. Mae cofnodion yn gallu bod yn anghyflawn neu'n anghywir os cânt eu llenwi ar ôl darparu'r gofal ac felly mae'n bosibl nad yw staff nyrsio/meddygol yn gwbl ymwybodol pa ofal a thriniaeth sydd wedi eu darparu.

3.17 Ar ddiwrnod ein hymweliad adolygwyd ffeiliau pedwar claf, a oedd wedi eu nodi'n gleifion 'Na Cheisier Dadebru'. Ni chodwyd unrhyw bryderon o ganlyniad i'r rhan fwyaf o'r ffurflenni a adolygwyd gan eu bod wedi eu llenwi'n llwyr gan gynnwys tystiolaeth bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r cleifion a/neu eu teuluoedd. Er hyn, wrth adolygu un ffurflen roeddem yn pryderu nad oedd yn ymddangos bod y claf ei hun wedi ei gynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â'r mater, er ei bod yn amlwg y cafwyd trafodaeth gyda theulu'r claf. Hefyd, nid oedd tystiolaeth i ddangos nad oedd gan y claf y gallu i gael trafodaeth o'r fath.

Hylif a Maeth

3.18 Roedd amserau prydau bwyd wedi eu diogelu ar gyfer prydau bwyd gyda'r nos y ward. Er hyn, nid oedd y prydau bwyd amser cinio wedi eu diogelu.

3.19 Roedd bwrdd bwyta mawr ar gael yn yr ystafell ddydd ac roeddem yn falch o weld bod cleifion a oedd yn gallu bwyta wrth y bwrdd, ac yn dymuno gwneud hynny, yn cael cymorth gan y staff.

3.20 Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion eraill yn eistedd yn y cadeiriau wrth ymyl eu gwelyau yn ystod cyfnod amser cinio. Fodd bynnag, ni welwyd y staff yn glanhau/tacluso'r byrddau wrth ymyl gwelyau'r claf cyn gweini'r prydau bwyd, a gwelwyd bod annibendod ar rai o'r byrddau.

3.21 Rhoddwyd gwybod i ni nad oedd system hambwrdd coch yn cael ei defnyddio ar y ward a bod y ward wedi bod yn treialu symbol afal i nodi'r cleifion a oedd angen cymorth

i fwyta'u prydaau bwyd. Yn ystod y pryd bwyd a arsylwyd, gwelwyd cleifion a oedd angen cymorth yn cael eu cynorthwyo gan y staff.

3.22 Roedd y cleifion y siaradwyd â nhw yn canmol y bwyd yr oeddynt yn ei dderbyn yn fawr a nodwyd bod y staff bob amser wrth law i gynorthwyo cleifion a oedd angen cymorth i fwyta'u prydaau bwyd.

3.23 Ar ôl y pryd bwyd, nid oedd unrhyw gysondeb o ran pa aelodau o staff a oedd yn casglu hambyrddau'r cleifion, sy'n gallu achosi problemau wrth sicrhau bod siartiau bwyd y cleifion yn gyfredol ac yn gywir.

3.24 Roedd jygiau a chwpanau dŵr ar gael ar gyfer yr holl gleifion ac roeddynt o fewn cyrraedd rhwydd iddynt. Er hyn, fel y nodwyd eisoes, roeddem yn pryderu o weld bod padell wely wedi ei defnyddio wedi ei gosod wrth ymyl jwg a chwpan dŵr un claf ar y bwrdd wrth ymyl y gwely.

3.25 Roedd asesiadau maeth ar gael i gleifion yr oedd arnynt eu hangen. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd pwysau'r claf wedi ei gofnodi ar y siartiau bob amser. Gwelwyd hefyd nad oedd y siartiau cydbwysedd hylif bob amser yn mesur allbwn y cleifion a oedd yn dioddef o anymataliaeth.

Briwiau Pwyso

3.26 Roedd asesiadau risg Waterlow³ wedi eu cynnal ac roedd bwndel SKIN⁴ ar gael i gleifion a oedd mewn perygl o ddatblygu niwed o ganlyniad i friwiau pwyso ar y ward. Roedd croesau diogelwch⁵ ar gael hefyd ac roedd y staff yn eu gwerthuso.

3.27 Roedd cleifion yr aseswyd eu bod mewn perygl uchel o ddatblygu briwiau pwyso wedi derbyn y matresi/clustogau priodol.

³ Offeryn polisi ar gyfer asesu risg/atal briwiau pwyso yw 'Waterlow'.

⁴ Dull cyfannol syml i sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn y gofal priodol er mwyn atal niwed o ganlyniad i friwiau pwyso.

⁵ Mae croes ddiogelwch yn offeryn a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth mewn timau ynglŷn â nifer y briwiau a geir mewn meysydd gofal a hefyd sut i hybu arferion da.

Gofal a Hylendid Personol

3.28 Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn cael gofal da a bod eu hanghenion hylendid yn cael eu bodloni ar y ward. Dywedodd y cleifion y siaradwyd â nhw eu bod yn gallu ymolchi a glanhau eu dannedd mor rheolaidd ag yr oeddynt yn dymuno.

3.29 Roedd y cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain ac roeddynt yn ymddangos yn lân.

3.30 Cyn y pryd bwyd a arsylwyd, ni chynigiodd y staff gyfleusterau golchi dwylo i bob claf.

3.31 Roedd dogfennau ar gael yn dystiolaeth o anghenion gofal a hylendid personol y cleifion a'r cymorth a ddarparwyd. Er hyn, nodwyd nad oedd lefel y manylion yn y dogfennau hyn yn gyson.

Anghenion o ran mynd i'r Tŷ Bach

3.32 Gwelsom gleifion yn cael cymorth gan y staff i fynd i'r tŷ bach yn y dull o'u dewis. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw wrthym bod y staff yn eu cynorthwyo i fynd i'r tŷ bach yn y dull o'u dewis mewn modd sensitif.

3.33 Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth yn dangos bod asesiadau anymataliaeth yn cael eu cynnal ac nid oedd unrhyw dystiolaeth ar siartiau cydbwysedd hylif y cleifion bod padiau anymataliaeth yn cael eu pwyso.

3.34 Gwelsom fod rhai o'r comedau ar y ward yn fudr. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod tâp gwyrdd wedi ei osod ar y comedau hyn i ddangos eu bod wedi cael eu glanhau. Nodwyd hefyd bod un comôd ar y ward wedi'i ddifrodi. Nodwyd materion tebyg yn ystod Archwiliad Glanweithdra ar Hap AGIC ym mis Mawrth 2009.

Seinyddion

3.35 Roedd gan bob claf ar y ward seinydd a oedd o fewn cyrraedd iddo ef neu hi ac ni chododd y cleifion y siaradwyd â nhw unrhyw faterion yn ymwneud ag ymateb y staff i'r seinyddion. Er hyn, yn ystod ein hamser ar y ward, gwelsom un claf yn gorfod aros am amser sylweddol i aelod o'r staff ymateb, er bod staff o gwmpas.

3.36 Roedd seinyddion argyfwng ar gael yn nhai bach y cleifion ar y ward.

Cyfathrebu

3.37 Roedd siaradwyr Cymraeg ar gael ar y ward yn ogystal â rhestr o gyfieithwyr. Hefyd, roedd system ddolen a byrddau gwyn cludadwy ar gael i gynorthwyo cleifion â nam ar y clyw i gyfathrebu ac roedd llyfrau llafar ar gael.

3.38 Roedd arwydd wedi ei lamineiddio uwchben gwely pob claf i roi gwybod i bobl eraill os oedd gan y claf nam ar y clyw neu'r golwg. Er hyn, ni sylwyd ar unrhyw gymhorthion cyfathrebu eraill ar gyfer cleifion â nam ar y golwg.

Meddyginiaethau a Rheoli Poen

3.39 Ni chodwyd unrhyw faterion gan y cleifion y siaradwyd â nhw ynglŷn â rheoli poen ar y ward. Er hyn, nodwyd nad oedd offerynnau asesu poen yn cael eu defnyddio.

3.40 Roedd yn destun pryder gweld nad oedd drws yr ystafell feddyginiaeth wedi ei gloi a hynny er bod arwydd yn nodi y dylai'r drws fod ar gau bob amser, ac er bod clo bysellbad ar y drws. Hefyd, nodwyd bod yr oergell cyffuriau a rhai o'r cypyrddau y tu mewn i'r ystafell, a oedd yn cynnwys sylweddau a allai fod yn beryglus, wedi eu gadael ar agor.

3.41 Amlygwyd mwy o bryderon o ran y risg y gallai pobl fynd at feddyginiaeth pan welsom y staff yn cynnal y rowndiau meddyginiaeth ar y ward. Ar sawl achlysur gwelwyd y staff yn gadael y troli meddyginiaeth ar agor a heb ei warchod yn y prif goridor, pan oeddynt i mewn yn ystafelloedd y cleifion yn rhoi meddyginiaeth iddynt. Hefyd, nid oedd y staff yn defnyddio dull cyson o sicrhau pwy oedd y claf cyn rhoi meddyginiaeth. Ar ôl ein hymweliad arolygu, derbyniwyd sicrwydd ysgrifenedig gan y Bwrdd Iechyd bod camau wedi eu cymryd i ymdrin â'r risgiau a nodwyd ynglŷn â gallu mynd at feddyginiaethau.

Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Cleifion

3.42 O adolygu nodiadau rhai o'r cleifion, gwelwyd tystiolaeth y ceir trafodaeth am y cynllun rhyddhau gyda nhw ac y cytunir ar y cynllun hwnnw. Er hyn, nid oedd rhai o'r cleifion ar y ward y siaradwyd â nhw wedi eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â'u rhyddhau o'r ysbyty.

Gweithgareddau

3.43 Mae gweithgareddau hamdden ar wardiau ysbyty (gan gynnwys gemau bwrdd, cardiau a bingo) yn gallu rhoi cyfle i gleifion wella ansawdd eu bywydau trwy roi mwy o ymdeimlad o reolaeth a chefnogaeth gymdeithasol iddynt yn ogystal â chyfle ar gyfer ymadwethio cymdeithasol a chyflawni amcanion ar sail tasgau. Mae'n gallu cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed i ddatblygu neu ailsefydlu sgiliau cymdeithasol mewn amgylchedd a reolir. Mae ymchwil⁶ wedi dangos bod cynnal gweithgareddau ar wardiau ysbyty yn cael amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar gleifion mewnol, gan gynnwys:

- Newidiadau ffisiolegol a seicolegol cadarnhaol mewn canlyniadau clinigol.
- Cymryd llai o gyffuriau.
- Aros yn yr ysbyty am gyfnodau byrrach.
- Hybu perthynas well rhwng y meddyg a'r claf.
- Gwella iechyd meddwl.

⁶ Cymdeithas Feddygol Prydain, 'The psychological and social needs of patients,' mis Ionawr 2011.

3.44 Roedd setiau teledu ar gael ym mhob un o ystafelloedd y cleifion ac roedd papurau newydd ar gael yn rhwydd.

3.45 Fel y nodwyd eisoes, roedd ystafell ddydd ar gael ar y ward a gwelwyd y cleifion yn ei defnyddio. Roedd ynddi deledu, llyfrau a gemau. Mae Therapydd Cymorth Cleifion hefyd yn dod i'r ward bob wythnos sy'n gwella'r gweithgareddau sydd ar gael ar gyfer y cleifion. Roedd y therapydd ar y ward yn ystod ein hymweliad a gwelwyd nifer o'r cleifion yn cymryd rhan mewn arddangosiad trefnu blodau. Nodwyd hefyd bod y Therapydd yn treulio amser yn siarad â'r cleifion, eu cynorthwyo ar adeg prydau bwyd ac yn eu hannog i lenwi arolygon ynglŷn â'r gofal yr oeddynt yn ei dderbyn ar y ward, yn ystod ei hamser yno.

Ward Twymyn (Adferiad), Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi

Amgylchedd y Ward

3.46 Yn gyffredinol, roedd yr amgylchedd yn olau ac yn gyfoes. Er hyn, nodwyd rhai rhannau o'r ward lle'r oedd llwch a gwe pryfed cop yn amlwg. Hefyd, nodwyd bod un o dai bach y cleifion yn fudr.

3.47 Roedd digon o le storio ar gael ar y ward; ond roedd annibendod yn broblem yn enwedig o amgylch gwelyau'r cleifion.

3.48 Roedd arwynebau pren yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron, a nodwyd eisoes bod hyn yn broblem o ran rheoli heintiau yn Archwiliad Glanweithdra ar Hap AGIC ym mis Mawrth 2011. Nid oes modd glanhau arwynebau pren yn iawn ac felly mae'n peri risg o halogiad. Nodwyd hefyd nad oedd basn ymolchi ar gael yn yr ystafell.

3.49 Nid oedd y tai bach yn yr ystafell wedi eu neilltuo ar gyfer dynion neu fenywod a sylwyd bod y clo wedi torri mewn un tŷ bach. Roedd llenni urddas ar gael y tu mewn i ddrysau'r tŷ bach ond roeddem yn pryderu ein bod wedi sylwi ar ddau achlysur y gellid gweld cleifion ar y tŷ bach o'r prif goridor, gan nad oedd y drws ar gau a'r llenni heb eu cau.

3.50 Roedd ystafell gawod ar gael ar y ward; ond gan fod sawl teclyn codi yn cael eu cadw yn yr ystafell, nid oedd y cleifion yn gallu ei defnyddio.

3.51 Gwelsom y staff yn sicrhau bod y llenni wedi eu cau o amgylch gwelyau'r cleifion pan yr oeddynt yn darparu gofal. Er hyn, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod arwyddion yn cael eu defnyddio i roi gwybod i bobl eraill bod gofal personol a thriniaeth yn cael eu darparu.

3.52 Roedd ystafell ddydd ar gael ar y ward, a hynny mewn heulfan; ond nodwyd mai'n anaml iawn yr oedd y cleifion yn ei defnyddio oherwydd bod y teils ar y llawr yn llithrig a'r ystafell yn oer. Hefyd, roedd y llawr yn yr ystafell yn anwastad.

Agwedd ac Ymddygiad y Staff a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas

3.53 Yn gyffredinol, gwelwyd bod y staff yn gofalu am y cleifion mewn modd cwrtais a charedig. Hefyd, roedd y cleifion y siaradwyd â nhw yn canmol agwedd y staff a'u hymddygiad tuag atynt. Er hyn, clywsom rai o'r staff yn siarad â chleifion yn uchel iawn ac yn ddiurddas. Codwyd y mater hwn gyda Phrif Nyrs y Ward ar adeg ein hymweliad ac aeth i'r afael â'r pryderon ar unwaith.

3.54 Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r staff yn ymwybodol bod angen pwyll a doethineb wrth gyfathrebu gwybodaeth sensitif. Er hyn, roedd yn bosibl clywed sgysiau'r staff â'r cleifion ynglŷn â gofal personol a thriniaeth yn eglur o brif goridor y ward ar sawl achlysur.

3.55 Nid oedd y staff y siaradwyd â nhw o'r farn bod digon o staff yn gweithio ar y ward. Nodwyd nad oedd Prif Nyrs y Ward yn gallu cyflawni ei dyletswyddau rheoli ar achlysuron oherwydd y galw am staff ar y ward. Dywedodd Prif Nyrs y ward wrthym bod hyn wedi ei hatal rhag gweithredu'r newidiadau yr oedd yn dymuno eu sefydlu.

3.56 Roedd yr holl staff ar y ward yn gwisgo bathodyn adnabod fel modd o nodi pwy ydynt.

Rheoli Cleifion sy'n Ddryslyd neu sydd â Dementia

3.57 Nid oedd unrhyw fentrau ar waith ar y ward yn ymwneud ag anghenion gofal cleifion sy'n ddryslyd neu sydd â dementia.

3.58 Nododd y staff fod cymorth ar gael ar eu cyfer gan Nyrs Dementia. Er hyn, sylwyd nad oedd yr holl staff y siaradwyd â nhw wedi derbyn hyfforddiant ym maes dementia.

3.59 Nid oedd unrhyw arwyddion mawr darluniadol ar ddrysau ystafelloedd cyfleusterau'r cleifion i gynorthwyo'r holl gleifion, yn enwedig cleifion sy'n ddryslyd neu sydd â dementia, i ddod o hyd iddynt. Er hyn, fel y nodwyd eisoes, rhoddwyd gwybod i ni gan y staff bod archwiliad ledled y Bwrdd Iechyd wedi ei gynnal ynglŷn â chynlluniau lliw ar wardiau i gynorthwyo cleifion sy'n ddryslyd neu sydd â dementia.

Cynllunio a Darparu Gofal

3.60 Roedd asesiadau cleifion ar gael ac roedd y staff wedi eu diweddarau. Er hyn, nid oedd yr asesiadau priodol wedi eu llenwi ynglŷn â risgiau penodol i gleifion. Er enghraifft, roedd nodiadau un claf yn nodi bod perygl o ddisgyn, ond nid oedd asesiad wedi ei gynnal ar gyfer hynny.

3.61 Roedd cynlluniau gofal ar gael ar gyfer yr holl gleifion; ond dim ond un cynllun gofal a welsom a oedd wedi ei addasu er mwyn bod yn berthnasol i'r unigolyn penodol hwnnw. Roedd y cynllun gofal hwn ar gyfer claf â nam gwybyddol ac roedd yn cynnwys llawer o fanylion ynglŷn â sut i gefnogi'r claf i wneud tasgau. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig i sylwi bod aelod gwahanol o'r staff nyrsio, wythnos yn ddiweddarach, wedi nodi yn y cynllun gofal ei fod yn "gynllun gofal ailadroddus diangen, gan nad ydym yn gallu gwella nam gwybyddol". Codwyd hyn gyda Phrif Nyrs y Ward a ddywedodd ei bod yn ymwybodol o'r broblem a'i bod yn ymdrin â'r mater.

Rheoli Cofnodion

3.62 Roedd cofnodion y cleifion yn rhwydd eu dilyn, ond nodwyd sawl achlysur pan yr oedd y staff yn llenwi'r dogfennau ar ôl darparu gofal, fel y nodwyd ym mhwynt 3.71 ar ôl prydau bwyd. Mae cofnodion yn gallu bod yn anghyflawn neu'n anghywir os cânt eu

llenwi ar ôl darparu'r gofal ac felly mae'n bosibl nad yw staff nyrsio/meddygol yn gwbl ymwybodol pa ofal a thriniaeth sydd wedi eu darparu..

3.63 Ar ddiwrnod yr ymweliad, adolygwyd nodiadau claf a oedd wedi ei nodi'n glaf 'Na Cheisier Dadebru'. Fel yn achos Ward Llewellyn, codwyd pryderon o ran gallu, gan nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y penderfyniad a chynnwys y ffurflen wedi eu trafod gyda'r claf. Hefyd, nid oedd dystiolaeth ar gael yn nodiadau'r claf yn nodi nad oedd gan y claf y gallu i gynnal trafodaeth o'r fath.

Hylif a Maeth

3.64 Fel yn achos Ward Llewellyn, roedd amserau prydau bwyd yn cael eu diogelu ar gyfer prydau bwyd gyda'r nos yn unig.

3.65 Roedd bwrdd bwyta mawr ar gael yn yr ystafell ddydd. Fodd bynnag, ni welwyd neb yn defnyddio'r bwrdd bwyta.

3.66 Roedd rhai o'r cleifion yn eu gwelyau ond roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn y gadair wrth ymyl eu gwely yn ystod cyfnod amser cinio. Roedd yn ymddangos bod pob claf yn gyfforddus. Er hyn, gwelwyd mai ychydig iawn o baratoi a fu wrth ymyl gwelyau'r cleifion, er enghraifft ni chafodd y byrddau wrth ymyl y gwelyau eu glanhau/tacluso cyn i'r prydau gael eu gweini.

3.67 Roedd y broses ar adeg prydau bwyd ar y ward wedi ei chydgyssylltu'n dda a'i gweithredu'n bennaf gan y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a Staff y Gegin dan oruchwyliaeth Prif Nyrs y Ward.

3.68 Rhoddwyd gwybod i ni na ddefnyddir hambyrddau coch i nodi pa gleifion yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta'u prydau bwyd gan nad oedd y byrddau wrth ymyl y gwelyau yn ddigon mawr ar gyfer yr hambyrddau. Fodd bynnag, roedd y ward yn

defnyddio symbol afal uwch ben gwely'r claf os oedd angen cymorth i fwyta a symbol cwpan os oedd angen cymorth i yfed.

3.69 Dywedodd y cleifion y siaradwyd â nhw wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd ar y ward a'u bod yn cael cymorth i fwyta os oedd angen. Hefyd, gwelwyd y cleifion yn derbyn cymorth gan y staff i fwyta eu prydau bwyd.

3.70 Roedd jygiau dŵr ar gael ar gyfer yr holl gleifion ac roeddynt o fewn cyrraedd rhwydd iddynt, a gwelwyd y cleifion yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i yfed.

3.71 Gwelsom y staff domestig yn casglu'r hambyrddau ar ôl amser pryd bwyd. Roeddynt yn rhoi gwybod i'r staff nyrsio faint yr oedd y claf wedi ei fwyta neu yfed yn hwyrach yn ystod y dydd ac roedd y nyrs yn llenwi cofnod y claf ar ôl hynny.

3.72 Roedd asesiadau maeth wedi eu cynnal ar gyfer y cleifion yr oedd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd pwysau'r claf yn cael ei gofnodi ar y siartiau ac nad oedd unrhyw siartiau cydbwysedd hylif ar gael ar y ward.

Briwiau Pwysu

3.73 Roedd asesiadau risg Waterlow wedi eu cynnal a defnyddir croesau diogelwch. Hefyd roedd bwndelau SKIN wedi eu cyflwyno ar y ward yn ddiweddar.

3.74 Roedd cleifion yr aseswyd bod angen matresi/clustogau arnynt er mwyn rheoli briwiau pwysu wedi eu derbyn.

Gofal a Hylendid Personol

3.75 Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn cael gofal da a bod eu hanghenion gofal a hylendid personol yn cael eu bodloni. Hefyd, dywedodd y cleifion y siaradwyd â nhw

wrthym eu bod yn cael ymolchi a golchi eu dannedd mor rheolaidd ag yr oeddynt yn dymuno.

3.76 Roedd y cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain ac roeddynt yn ymddangos yn lân ac yn daclus.

3.77 Roedd dogfennau ar gael i gofnodi'r gofal personol a hylendid yr oedd y cleifion yn ei dderbyn gan gynnwys asesiadau gofal y geg.

3.78 Cyn amser pryd bwyd, gwelsom aelod o staff yn cynnig llieiniau gwlyb i'r cleifion er mwyn iddynt olchi eu dwylo, ond ni chynigiwyd llieiniau gwlyb i bob claf.

Anghenion o ran mynd i'r Tŷ Bach

3.79 Gwelsom y cleifion yn cael cymorth y staff i fynd i'r tŷ bach yn y dull yr oeddynt yn ei ddewis. Dywedodd y cleifion y siaradwyd â nhw bod y staff yn eu cynorthwyo i fynd i'r tŷ bach yn y dull yr oeddent yn ei ddewis mewn modd sensitif.

3.80 Roedd tystiolaeth bod asesiadau anymataliaeth yn cael eu cynnal. Er hyn, fel y nodwyd eisoes, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod siartiau cydbwysedd hylif ar gael i gofnodi faint o hylif yr oedd y cleifion yn ei gymryd/ei gynhyrchu.

3.81 Roedd yr holl gomodau ar y ward yn fudr ar adeg ein hymweliad. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod tâp gwyrdd arnynt yn nodi eu bod wedi cael eu glanhau. Codwyd y mater hwn hefyd fel rhan o Archwiliad Glanweithdra ar Hap AGIC ym mis Mawrth 2011.

Seinyddion

3.82 Roedd gan y cleifion i gyd ar y ward seinydd a oedd o fewn cyrraedd rhwydd iddynt ac ni chododd y cleifion y siaradwyd â nhw unrhyw faterion o ran y staff yn ymateb i'r seinyddion. Hefyd, yn ystod ein hamser ar y ward, gwelsom y staff yn ymateb i seinyddion cleifion yn brydlon.

3.83 Roedd seinyddion argyfwng ar gael hefyd yn nhai bach y cleifion ar y ward.

Cyfathrebu

3.84 Roedd siaradwyr Cymraeg ar gael ar y ward. Hefyd, roedd clociau ar gael yn yr ystafell ddydd a oedd yn dangos y dyddiad a'r amser. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gymhorthion cyfathrebu ar gael ar gyfer cleifion â nam ar y synhwyrau.

Meddyginiaethau a Rheoli Poen

3.85 Ni chododd y cleifion y siaradwyd â nhw unrhyw faterion ynglŷn â rheoli poen. Er hyn, ni welwyd tystiolaeth bod unrhyw asesiadau poen yn cael eu cynnal ar y ward, er bod meddyginiaeth lleddfau poen wedi ei rhagnodi ar gyfer rhai cleifion.

3.86 Fel yn achos Ward Llewellyn, codwyd pryderon ynglŷn â'r gallu i fynd at feddyginiaeth ar y ward. Roedd yn destun pryder gweld nad oedd drws yr ystafell feddyginiaeth wedi ei gloi er bod clo bysellbad ar y drws. Nodwyd hefyd bod yr oergell cyffuriau y tu mewn i'r ystafell, a rhai o'r cypyrddau a oedd yn cynnwys sylweddau a allai fod yn beryglus, ar agor. Hefyd, nid oedd un troli meddyginiaeth wedi ei chloi i'r wal. Codwyd y materion hyn gyda Phrif Nyrs y Ward ar unwaith a dywedodd nad yw'r drws yn cael ei gloi er mwyn gallu mynd yn rhwydd at y troli dadebru. Nid yw hwn yn rheswm boddhaol oherwydd y risgiau a amlygwyd ynglŷn â'r gallu i fynd at feddyginiaeth.

3.87 Codwyd mwy o bryderon wrth arsylwi'r staff yn cynnal y rowndiau meddyginiaeth. Ar sawl achlysur, gwelsom y staff yn gadael y troli meddyginiaeth ar agor a heb ei warchod ym mhrif goridor y ward, pan oeddynt yn ystafelloedd y cleifion yn rhoi meddyginiaeth. Hefyd, nid oedd gan y staff ddull cyson o sicrhau pwy oedd y cleifion cyn rhoi meddyginiaeth iddynt.

3.88 Fel y nodwyd eisoes, rydym wedi derbyn sicrwydd gan y Bwrdd Iechyd ers ein harolygiad bod camau wedi eu cymryd ynglŷn â'r risgiau a nodwyd ar y ddwy ward o ran gallu mynd at feddyginiaeth.

Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Cleifion

3.89 Nid oedd y rhan fwyaf o'r nodiadau a adolygwyd ynglŷn â rhyddhau cleifion o'r ward yn rhwydd eu dilyn. Nid oedd trafodaethau'r Tîm Amlddisgyblaethol i drefnu'r broses o ryddhau yn rhestru'r canlyniadau na phwy oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

3.90 Nid oedd yr holl gleifion y siaradwyd â nhw wedi cael eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â'r broses o'u rhyddhau o'r ysbyty.

Gweithgareddau

3.91 Roedd setiau teledu ar gael yn ystafelloedd unigol a chilfachau'r cleifion. Fel y nodwyd eisoes, roedd ystafell ddydd ar gael ar y ward ond ni welsom unrhyw gleifion yn ei defnyddio yn ystod ein hamser ar y ward.

3.92 Ni welsom unrhyw weithgareddau yn cael eu cynnal yn ystod ein hamser ar y ward. Er hyn, roedd y cleifion a oedd yn ddigon iach yn gallu mynd i'r ysbyty ddydd, lle'r oedd gweithgareddau'n cael eu cynnal trwy gydol y dydd.

4. Argymhellion

4.1 Rhoddwyd gwybod ar lafar am y canfyddiadau a'r argymhellion cysylltiedig trwy gydol yr arolygiad ac yn fwy ffurfiol yn y cyfarfod adborth a gynhaliwyd ar ddiwedd ail ddiwrnod yr ymweliad. Nodwyd unrhyw bryderon brys a oedd yn codi o'r arolygiad mewn llythyr rheoli at y Bwrdd Iechyd hefyd, ar ôl yr arolygiad, er mwyn gallu cymryd camau ar unwaith.

4.2 O ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn rydym yn nodi'r argymhellion canlynol.

Cyfeiriad	Argymhelliad	Cyfeiriad Paragraff
Amgylchedd y Ward		
1.1	Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r trefniadau storio er mwyn sicrhau y gellir cadw offer ac eiddo cleifion yn briodol.	3.3, 3.47,3.50
1.2	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod systemau wedi eu sefydlu er mwyn cynnal lefel glanweithdra dderbyniol ar bob ward.	3.3, 3.24,3.46
1.3	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl dai bach wedi eu neilltuo ar gyfer dynion neu fenywod.	3.4, 3.49
1.4	Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r cloeon ar yr holl gyfleusterau tai bach/ystafelloedd ymolchi er mwyn sicrhau bod unrhyw rai sydd wedi torri yn cael eu hatgyweirio.	3.4, 3.49,
1.5	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod camau wedi eu sefydlu i sicrhau y cynhelir preifatrwydd ac urddas y cleifion pan fyddant yn defnyddio'r tŷ bach/ystafell ymolchi.	3.4, 3.49

1.6	Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r ystafell amlbwrpas eitemau budron er mwyn ymdrin â'r materion yn yr adroddiad hwn.	3.48
1.7	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod camau wedi eu sefydlu i roi gwybod i bobl eraill bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu y tu ôl i lenni wedi eu cau.	3.51
1.8	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod camau wedi eu sefydlu i sicrhau iechyd a diogelwch y cleifion ym mhob rhan o'r wardiau.	3.52
Agwedd ac Ymddygiad y Staff a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas		
2.1	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl staff yn gwisgo bathodynau adnabod fel modd o ddangos pwy ydynt pan fyddant ar ddyletswydd.	3.9
2.2	Dylai'r Bwrdd Iechyd atgoffa'r holl staff ei bod yn ofynnol iddynt siarad â'r cleifion ac ymdrin â nhw mewn modd parchus, ag urddas.	3.53
2.3	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o bwysigrwydd dangos pwyll a doethineb wrth gyfathrebu gwybodaeth sensitif.	3.54
2.4	Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei lefelau staffio presennol er mwyn sicrhau nad yw'r gofal yn cael ei effeithio'n rheolaidd oherwydd prinder staff.	3.55
Rheoli Cleifion sy'n Ddryslyd neu sydd â Dementia		
3.1	Dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth am ddementia i'r staff.	3.11, 3.58
3.2	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod arwyddion mawr darluniadol ar gael ar gyfleusterau'r cleifion er enghraifft yr ystafelloedd ymolchi a'r tai bach.	3.12, 3.59

3.3	Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried gweithredu menter ar Ward Twymyn i gynorthwyo'r staff i ofalu am gleifion sy'n ddryslyd neu sydd â dementia.	3.57
Cynllunio a Darparu Gofal		
4.1	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod asesiadau cleifion yn cael eu llenwi a'u diweddarau'n llwyr gan y staff er mwyn cyfrannu at gynllun gofal y cleifion.	3.13, 3.31
4.2	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr asesiadau gofynnol yn cael eu cwblhau ynglŷn â risgiau penodol i'r cleifion.	3.13, 3.43, 3.60
4.3	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau mai dim ond un system cynllunio gofal sy'n cael ei defnyddio ar Ward Llewellyn.	3.14, 3.16
4.4	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion mewnol gynlluniau gofal sy'n cael eu haddasu ar gyfer anghenion penodol y cleifion, a'u hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd	3.14, 3.61
Rheoli Cofnodion		
5.1	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y staff yn llenwi nodiadau'r cleifion ar unwaith ar ôl darparu gofal, triniaeth neu brydau bwyd ac ati.	3.16, 3.62
5.2	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl ffurflenni 'Na Cheisier Dadebru' yn cael eu llenwi'n llwyr a'u bod yn dangos tystiolaeth bod trafodaeth wedi ei chynnal gyda'r claf a/neu deulu'r claf gan hefyd roi'r rhesymau os na chafwyd trafodaeth.	3.17, 3.63
Hylif a Maeth		
6.1	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y byrddau yn ymyl gwelyau'r cleifion yn cael eu glanhau/tacluso cyn gweini prydau bwyd.	3.20, 3.76
6.2	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod aelodau priodol o'r staff yn casglu hambyrddau'r cleifion ar ôl amserau prydau bwyd er mwyn gallu asesu a chofnodi faint y gwnaeth y claf ei fwyta/yfed.	3.23, 3.71
6.3	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o	3.25, 3.72

	bwysigrwydd cofnodi pwysau'r cleifion ar siartiau asesu maeth.	
6.4	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod siartiau cydbwysedd hylif ar gael ar gyfer y staff i gofnodi faint mae'r cleifion yn ei gymryd ac yn ei gynhyrchu.	3.25, 3.43,3.72, 3.81
6.5	Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried gweithredu amserau prydau bwyd a ddiogelir ar gyfer yr holl brydau bwyd ar y wardiau.	3.18, 3.64
Gofal a Hylendid Personol		
8.1	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y cleifion i gyd yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd.	3.30, 3.78
8.2	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y gofal personol a ddarperir i'r cleifion yn cael ei gofnodi'n rheolaidd gan y staff.	3.31
Anghenion o ran Mynd i'r Tŷ Bach		
9.1	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod unrhyw glaf yr aseswyd bod ganddo ef neu hi anghenion anymataliaeth yn derbyn asesiad mwy manwl sy'n gysylltiedig â chynllun gofal y claf.	3.43
9.2	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau y sefydlir dull cyson o lanhau'r comodau'n effeithiol, a bod arwydd yn amlwg i nodi bod y comôd wedi ei lanhau a'i fod yn barod i'w ddefnyddio.	3.34, 3.81
9.3	Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu cyflwr yr holl gomodau sydd ar gael, ac atgyweirio unrhyw rai sydd wedi'u difrodi, neu gael rhai eraill yn ei lle.	3.34
Seinyddion		
10.1	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y staff yn gwneud ymdrech i ymateb i seinyddion yn brydlon neu roi esboniad i'r cleifion a thawelu eu meddyliau os nad ydynt yn gallu gwneud hynny oherwydd eu bod yn brysur.	3.35
Cyfathrebu		

11.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cymhorthion cyfathrebu ar gael ar wardiau i gynorthwyo cleifion â nam ar y synhwyrâu i gyfathrebu.	3.38, 3.84
Meddyginiaeth a Rheoli Poen		
12.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y cynhelir asesiad poen ar unwaith ar ôl nodi bod claf mewn poen, a sicrhau bod cynllun gweithredu yn cael ei sefydlu a'i adolygu a'i werthuso'n rheolaidd.	3.39, 3.85
12.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod systemau yn cael eu sefydlu i atal y risgiau a nodwyd yn yr adroddiad hwn ynglŷn â'r ffaith y gall cleifion a phobl heb awdurdod fynd at feddyginiaeth neu sylweddau eraill a allai fod yn beryglus.	3.40, 4.41, 3.86
12.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir ar gyfer rhoi meddyginiaeth i gleifion.	3.41, 3.87
Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Cleifion		
13.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion, a'u perthnasau pan fo hynny'n berthnasol yn cael eu hysbysu a'u cynnwys yn llawn mewn trafodaethau ynglŷn â'r cynlluniau ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty.	3.42, 3.90
13.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod dogfennau eglur ar gael sy'n dangos tystiolaeth o'r trafodaethau ynglŷn â'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion.	3.89

5. Y camau nesaf

5.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Iunio cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r prif broblemau a amlygwyd, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r cynllun gweithredu nodi'n glir pa bryd a sut y rhoddwyd sylw i'r problemau a nodwyd gennym ar y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Dylai hefyd gynnwys amserlenni ar gyfer sicrhau nad yw'r problemau yn cael eu hailadrodd yn unlle arall ar draws y Bwrdd Iechyd.

5.2 Yna, cyhoeddir y cynllun gweithredu hwn ar wefan AGIC a'i fonitro yn rhan o broses fonitro reolaidd AGIC.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Wneud cyfraniad sylweddol i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru pa un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalydd, perthynas neu weithiwr cyflogedig.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, berthnasol a rhwydd cael gafael arni am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Prif swyddogaeth AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal iechyd bod y gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da.

Adolygir gwasanaethau yn unol ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal ymchwiliadau ac adolygiadau arbennig pan ymddengys bod methiannau systematig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi'n gyflym. Rydym hefyd yn diogelu buddiannau pobl y cyfyngir ar eu hawliau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn ogystal, AGIC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwagedd.

Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007. Goruchwyliaeth Statudol Bydwagedd fel y'i nodir yn Erthyglau 42 a 43 o
- Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.
- Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006.

Mae AGIC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill wrth gynnal adolygiadau traws-sector ym meysydd gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol, ac wrth ddatblygu dulliau mwy cymesur a chydgysylltiol o adolygu a rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru.

Y Cefndir a'r Fethodoleg ar gyfer yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol

Dechreuwyd cynnal rhaglen 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' AGIC ym mis Tachwedd 2011.

Mae'r tîm arolygu yn cynnwys un o arolygwyr AGIC, dwy nyrs brofiadol sy'n ymarfer ac adolygwr 'lleyg'.

Mae'r tîm adolygu yn defnyddio nifer o dulliau arolygu i gynorthwyo i gasglu gwybodaeth am ward mewn ysbyty. Yn ystod yr ymweliadau, bydd y tîm yn arsylwi, yn siarad â chleifion, gofalwyr a pherthnasau ac yn edrych ar gofnodion iechyd. Mae'r dulliau arolygu a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol i'w gweld ar ein gwefan.

Ar ôl i ysbyty gael ei arolygu, caiff adroddiad ei lunio a'i gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd, ac yna, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu cynllun gweithredu i AGIC i fynd i'r afael â'r prif faterion a amlygwyd.

Adolygwyd nifer o adroddiadau allanol sydd wedi eu cyhoeddi gan sefydliadau megis Cymdeithas y Cleifion, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â gwybodaeth oddi wrth y cyhoedd ac o arolygiadau blaenorol AGIC. Ar sail y wybodaeth hon, rydym wedi datblygu methodoleg arolygu sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Amgylchedd y claf.
- Agwedd / ymddygiad/ gallu staff o ran darparu gofal ag urddas.
- Cynllunio a darparu gofal.
- Briwiau pwyso.
- Hylif a maeth.
- Gofal personol a hylendid.
- Anghenion o ran mynd i'r tŷ bach.
- Seinyddion.
- Cyfathrebu.

- Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen.
- Rheoli cofnodion.
- Rheoli cleifion sy'n ddryslyd.
- Gweithgareddau a symbyliad.
- Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae'r arolygiadau hyn wedi eu cynllunio i adolygu'r gofal a'r driniaeth a dderbynnir gan bob claf yn yr ysbyty, yn enwedig cleifion hŷn y mae ymchwil wedi profi y gallant fod yn arbennig o agored i niwed tra eu bod yn aros yn yr ysbyty.

Atodiad C

Themâu Urddas a Gofal Hanfodol, Hawliau Dynol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Mae'r ddogfen hon yn dangos sut y mae'r themâu a adolygir yn ystod arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol yn cyd-fynd â 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Thema Urddas a Gofal	Hanfodol	Confensiwn Ewropeaidd ar
Hawliau Dynol	Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer	Gwasanaethau Iechyd Cymru
Agwedd, ymddygiad a gallu'r staff i ddarparu gofal ag urddas	Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3). Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael: a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol. 10. Urddas a pharch Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion, ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni. 26. Hyfforddi'r gweithlu a datblygiad sefydliadol Mae cyrff a gwasanaethau

		<p>yn sicrhau bod eu gweithlu yn cael cymorth priodol i'w galluogi:</p> <p>a) i gynnal a datblygu cymwyseddau er mwyn iddynt gyrraedd eu holl botensial;</p> <p>b) i gymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol;</p> <p>c) i gael arfarniad personol blynyddol a chynllun datblygu personol i'w galluogi i ddatblygu eu rôl;</p> <p>d) i ddangos eu bod yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus; ac</p> <p>e) i gael cyfleoedd i ddatblygu eu harferion cydweithredol a'u sgiliau gweithio mewn tîm.</p>
<p>Rheoli cleifion dryslyd neu sydd â dementia</p>	<p>Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).</p> <p>Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).</p> <p>Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).</p>	<p>2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol</p> <p>Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:</p> <p>a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.</p> <p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion,</p>

		<p>defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.</p>
<p>Cynllunio a darparu gofal</p>	<p>Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).</p> <p>Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).</p> <p>Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).</p> <p>Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10).</p>	<p>7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol</p> <p>Bydd cyrff a gwasanaethau yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael triniaeth a gofal diogel ac effeithiol:</p> <p>a) sy'n seiliedig ar arferion gorau a chanllawiau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys y rhai a nodir yn y Fframweithiau Gwasanaethau Cenedlaethol, ac yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE), yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA), a chyrrff proffesiynol;</p> <p>b) sy'n cydymffurfio o'r cychwyn â chyfarwyddebau diogelwch a chlinigol; ac</p> <p>c) a amlygir gan weithdrefnau ar gyfer cofnodi ac archwilio cydymffurfiaeth a diffyg</p>

		<p>cydymffurfiaeth ag unrhyw un o'r uchod.</p> <p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;</p> <p>b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ail-alluogi; a</p> <p>c) thrwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a chyrff eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.</p>
<p>Cyfathrebu</p>	<p>Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10). Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14). Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).</p>	<p>2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol</p> <p>Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:</p>

	<p>Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).</p>	<p>a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.</p> <p>9. Gwybodaeth a chaniatâd cleifion</p> <p>Bydd cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy roi gwybodaeth hygrych iddynt yn brydlon am eu cyflwr, eu gofal, eu meddyginiaeth, eu triniaeth a'u trefniadau cymorth;</p> <p>b) drwy ddarparu cyfleoedd i drafod a chytuno ar opsiynau;</p> <p>c) drwy drin eu gwybodaeth yn gyfrinachol;</p> <p>d) drwy sicrhau eu bod yn cael digon o wybodaeth cyn rhoi caniatâd, yn unol â'r arferion gorau; a</p> <p>e) drwy eu hasesu a'u gwarchod yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 pan fydd yn briodol.</p> <p>18. Cyfathrebu effeithiol</p> <p>Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth effeithiol, hygrych, priodol a phrydlon:</p> <p>b) â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a</p>
--	-----------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

		<p>staff gan ddefnyddio ystod o gyfryngau a fformatiau priodol;</p> <p>c) ynghylch cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr;</p> <p>e) gan ymateb i anghenion ieithyddol ac anghenion cyfathrebu pawb.</p>
Hylif a maeth	<p>Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).</p>	<p>14. Maeth</p> <p>Bydd cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau:</p> <p>a) bod anghenion unigol cleifion a defnyddwyr gwasanaeth o ran maeth a hylif yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu;</p> <p>b) bod unrhyw gymorth sydd ei angen o fwyta ac yfed neu i fwydo a llyncu yn cael ei nodi a'i ddarparu.</p> <p>Lle y darperir bwyd a diod:</p> <p>d) y cynigir dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n diwallu anghenion maethol, therapiwtig, crefyddol a diwylliannol pawb; ac</p> <p>e) y bydd bwyd a diod ar gael 24 awr y dydd.</p>
Briwiau pwyso	<p>Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).</p>	<p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob</p>

		<p>agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.</p>
<p>Gofal personol a hylendid</p>	<p>Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).</p>	<p>2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael: a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.</p> <p>10. Urddas a pharch Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion, ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni.</p> <p>8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion,</p>

		<p>defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;</p> <p>b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ailalluogi.</p>
<p>Anghenion o ran mynd i'r tŷ bach</p>	<p>Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).</p>	<p>2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol</p> <p>Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:</p> <p>a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.</p> <p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys</p>

		<p>atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;</p> <p>b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ailalluogi.</p> <p>10. Urddas a pharch Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion, ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni.</p>
<p>Seinyddion</p>	<p>Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3). Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).</p>	<p>7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol Bydd cyrff a gwasanaethau yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael triniaeth a gofal diogel ac effeithiol:</p> <p>b) sy'n cydymffurfio o'r cychwyn â chyfarwyddebau diogelwch a chlinigol.</p> <p>8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion,</p>

		<p>defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr: a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.</p>
<p>Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen</p>	<p>Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).</p>	<p>8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr: a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.</p> <p>15. Rheoli meddyginiaethau Bydd cyrff a gwasanaethau yn sicrhau: a) eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau trwyddedu a chanllawiau arferion da ar holl agweddau rheoli meddyginiaethau, gan</p>

		<p>gynnwys cyffuriau a reolir;</p> <p>b) bod clinigwyr yn gymwys ac wedi'u hyfforddi i ragnodi, dosbarthu a rhoi meddyginiaethau yn eu maes ymarfer unigol; ac</p> <p>c) bod cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a staff yn cael yn brydlon gyngor a gwybodaeth briodol a hygyrch ar feddyginiaethau, ac ar adrodd am ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau.</p>
Rheoli cofnodion	Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).	<p>20. Rheoli cofnodion</p> <p>Mae cyrff a gwasanaethau yn rheoli eu holl gofnodion yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau eu bod:</p> <p>a) yn cael eu dylunio, eu paratoi, eu hadolygu a'u dosbarthu i ddiwallu'r anghenion gofynnol;</p> <p>b) yn cael eu storio'r ddiogel, eu cynnal yn sicr, eu hadfer yn brydlon a'u gwaredu'n briodol;</p> <p>c) yn gywir, yn gyflawn, yn ddealladwy ac yn gyfredol, yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol; a</p> <p>d) yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol.</p>
Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty	Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5). Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).	<p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag</p>

		<p>anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;</p> <p>b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ailalluogi; ac</p> <p>c) drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a chyryff eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.</p>
Gweithgareddau	<p>Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10).</p> <p>Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).</p>	<p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae cyryff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ailalluogi.</p>

Mae'r ddogfen hon yn dangos sut y mae'r themâu a adolygir yn ystod arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol yn cyd-fynd â 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.